



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y **Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe**

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell

Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS

Teams

Dydd Iau, 16 Tachwedd 2023 am 9.00 am

Yn Bresennol: Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe)
) oedd yn llywyddu

Y Cynghorwyr:



Steve Hunt	Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Darren Price	Cyngor Sir Gar
David Simpson	Cyngor Sir Benfro

Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:

Elwen Evans	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Judith Hardisty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Swyddogion:

Steven TO Aldred-Jones	Cyngor Sir Gâr
Carys Bates	Archwilio Cymru
Jason Blewitt	Archwilio Cymru
William Bramble	Prif Weithredwr (Cyngor Sir Penfro)
Matthew Holder	Dinas-ranbarth Bae Abertawe
Karen Jones	Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)
Jane Lewis	Swyddfa Ranbarthol (Cyngor Sir Gâr)
Allison Lowe	Cyngor Abertawe
Chris Moore	Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr)
Martin Nicholls	Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe)
Anthony Parnell	Cyngor Sir Gar
Nicola Pearce	Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Debbie Smith	Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Abertawe)
Ian Williams	Dinas-ranbarth Bae Abertawe
Lisa Willis	Cyngor Castell-nedd Port Talbot



Ymddiheuriadau am absenoldeb:

Paul Boyle (Prifysgol Abertawe) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)

Jon Haswell (Swyddog S151 (Cyngor Sir Benfro)) a/ac Wendy Walters (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr))

22 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

23 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

24 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Gwnaed y cyhoeddiadau canlynol:

- a) Cydymdeimladau - Huw Mowbray - Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol
Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Huw Mowbray. Huw oedd Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol y cyngor. Roedd Huw yn ffrind ac yn gydweithiwr arbennig o dda i lawer ac fe'i parchwyd yn fawr gan Gynghorwyr a Swyddogion am ei ymroddiad a'i broffesiynoldeb.

Am nifer o flynyddoedd helpodd Huw i lywio'r gwaith o adfywio Canol y Ddinas ac fe'i parchwyd yn fawr iawn gan ein Partneriaid a'n Datblygwyr. Mae effaith Huw ar y ddinas i'w gweld heddiw yn y datblygiadau niferus sydd wedi helpu i drawsnewid Canol y Ddinas.

Mae ein meddyliau a'n cydymdeimladau gyda theulu, ffrindiau a chydweithwyr Huw.

- b) Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Elwen Evans, aelod cyfetholedig newydd arfaethedig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Judith Hardisty, cyfetholedig newydd arfaethedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'r pwyllgor.

25 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

26 Aelodau Cyfetholedig Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Cyflwynwyd adroddiad gan Debbie Smith, Dirprwy Swyddog Monitro, i adolygu a chytuno ar aelodau cyfetholedig argymelledig y Cydbwyllgor.

Penderfynwyd bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo penodi:

- 1) Yr Athro Elwen Evans fel yr Aelod Cyfetholedig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant newydd;
- 2) Judith Hardisty fel yr Aelod Cyfetholedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda newydd.

27 Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2023-24.

Cyflwynodd Matthew Holder, Pennaeth Archwilio Mewnol, adroddiad i ystyried a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol.

Penderfynwyd:

- 1) Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2023-24.

28 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Jason Blewitt, Archwilio Cymru, yr adroddiad archwilio cyfrifon (Safon Ryngwladol ar Archwilio 260) ar gyfer 2022/23 mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ar 31 Mawrth 2023.

Penderfynwyd:

- 1) Bod y Cyd-bwyllgor yn derbyn archwiliad Archwilio Cymru o'r Adroddiad Datganiad o Gyfrifon 2022/2023 ar gyfer Cyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.

29 Datganiadau Ariannol 2022/23.

Cyflwynodd Chris Moore, Swyddog Adran 151, adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Datganiad o Gyfrifon Blynnyddol Rhaglen Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023.

Penderfynwyd:

- 1) Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Blynnyddol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ôl-archwiliad 2022/2023.

30 Llythyr Sylwadau.

Cyflwynodd Chris Moore, Swyddog Adran 151, adroddiad "Er Gwybodaeth" er mwyn cael cydnabyddiaeth ffurfiol y Cyd-bwyllgor o Lythyr Sylwadau Swyddog Adran 151 Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i Archwilio Cymru.

Bydd y llythyr yn cael ei lofnodi gan y Swyddog Adran 151 a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn dilyn y cyfarfod.

31 Y Rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel - Cais am newid i gynnwys y Ganolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero-net Genedlaethol.

Cyflwynodd Nicola Pearce, gyda chefnogaeth Lisa Willis a Jane Lewis, adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor ar gyfer cais am newid er mwyn i'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel (SILCG) ymgorffori'r Ganolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol (NZSCoE) yn y prosiect Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch (AMPF) cymeradwy.

Penderfynwyd:

- 1) Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r Cais am Newid yn Atodiad A ar gyfer ymgorffori'r Ganolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol yn y rhaglen SILCG fel y nodir yn yr Achos Busnes Amlinellol yn Atodiad B.

32 Monitro Ariannol Chwarterol Ch2 2023/24.

Darparodd Chris Moore, Swyddog Adran 151, ddiweddariad ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Penderfynwyd:

- 1) Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad diweddarau am fonitro ariannol.

33 Monitro Portffolio Chwarterol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA), adroddiad "Er Gwybodaeth" i hysbysu'r Cyd-bwyllgor o Adroddiad Monitro Chwarterol BDdBA ar gyfer portffolio BDdBA a'r rhaglenni/prosiectau sy'n rhan ohono.

34 Diweddariad ar Werth Ychwanegol Gros ar gyfer Monitro a Gwerthuso Portffolio.

Cyflwynodd Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe adroddiad "Er Gwybodaeth" i ddweud wrth y Cyd-bwyllgor fod cadarnhad wedi'i dderbyn gan Lywodraethau nad yw'n ofynnol i bortffolio BDdBA olrhain na chysylltu'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fel rhan o'i waith monitro ac adrodd rheolaidd.

Mae'r pwyllgor yn nodi:

- 1) Y cadarnhad gan Lywodraethau nad yw'n ofynnol i'r portffolio fonitro a phriodoli GVA i ymyriadau rhaglenni a phrosiectau;
- 2) Bydd Swyddfa Rheoli Portffolio BDdBA yn gweithio gyda rhaglenni a phrosiectau i ddatblygu metrigau economaidd CAMPUS amgen a phriodol ar gyfer monitro a gwerthuso.

Cofnodion cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (Dydd Iau, 16 Tachwedd
2023)
Parhad

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00 am

Cadeirydd